LLGC NLW
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales
Aberystwyth

DALEN

CYLCHLYTHYR LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU GWANWYN 2011 RHIF 13

Cyflwyno Copi o'r Llyfr Cyntaf a Argraffwyd yng Nghymru i'r Pab Bened XVI

Cyflwynwyd copi ffacsimili o *Y Drych Cristianogawl*, testun Catholig a'r llyfr cyntaf i'w argraffu ar dir Cymru, i'r Pab Bened XVI yn Eglwys Gadeiriol Westminster yn Llundain ar ddydd Sadwrn 18 Medi 2010.

Cynhyrchwyd y copi ffacsimili hwn o'r llyfr gan Julian Thomas, Rheolwr Uned Triniaeth Cadwraeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Julian yn un o'r prif lyfr-rwymwyr a gwneuthurwyr copïau ffacsimili ym Mhrydain a chaiff ei ddewis yn rheolaidd i greu copi rhwymedig cywrain o un o'r chwe llyfr yn rownd derfynol Gwobr Booker. Comisiynwyd creu'r copi gan Joseph Kelly, Prif Weithredwr yr *Universe Catholic Weekly*. Cyflwynwyd y copi i'r Pab gan yr Esgob Edwin Regan o Wrecsam yn rhodd gan bobl Cymru yn ystod sesiwn Gymreig yn yr offeren yng Nghadeirlan Westminster ar fore Sadwrn 18 Medi 2010.

Mae gan Joseph Kelly barch mawr at y Catholigion a gynhyrchodd *Y Drych Cristianogawl*.

'Bu gen i ddiddordeb ers amser maith yn y Tad William Davies fel y cyhoeddwr Catholig cyntaf yng Nghymru. Roeddwn wastad yn gobeithio y gallwn ryw ddydd godi ymwybyddiaeth o'r *Drych Cristianogawl* ac mae'n anrhydedd mawr i mi allu gwneud hynny a gweld cyflwyno copi ffacsimili o'r llyfr i'r Pab.'

Julian Thomas LlGC yn cyflwyno 'Y Drych Cristianogawl' i Joseph Kelly.

Cadair Casgliadau Digidol gyntaf y byd
Y Llyfrgell Genedlaethol yn ymweld â Wrecsam
Pwy oedd Islwyn Roberts?
Statws UNESCO i Ddau o Drysorau'r Llyfrgell
Cwrdd â'r Staff
Café Pen Dinas ar ei newydd wedd
Charles a Patricia Aithie: Yemen
Cyfrif Flickr Commons
Ffilmiau'r archif ar y Sgrin Fawr
The Proud Valley yn Wrecsam

Pigion y Tymor

Yn ystod y tymor bu i ni groesawu llu o enwogion i'r Llyfrgell. Ymunodd y gwleidydd Llafur a'r awdur Roy Hattersley â ni i drafod ei gyfrol ar David Lloyd George, *Lloyd George – The Great Outsider*, a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Cafwyd cipolwg hynod ddifyr ar deithiau'r awduron Jan Morris ac Owen Sheers, a thrafododd Dr Nick Barratt, yr ymchwilydd hanes teulu adnabyddus, sut i ymchwilio i hanes eich cartref.

Un o uchafbwyntiau'r tymor oedd ymweliad seren Hollywood Matthew Rhys â'r Llyfrgell. Prif bwrpas ei ymweliad oedd hyrwyddo ei lyfr newydd am ei daith ym Mhatagonia, sef *Patagonia – Croesi'r Paith*.

Edrychwn ymlaen yn fawr at groesawu rhagor o enwogion i'r Llyfrgell dros y misoedd nesaf.

Dyddiad i'r Dyddiadur

Dydd Gwener 15 Ebrill
7.30 p.m.

'How do we sort out this mess?'

Robert Peston, awdur llwyddiannus a Golygydd Busnes y BBC, yn trafod y sefyllfa sydd ohoni o ran economi Prydain a gweddill y byd.

Mynediad drwy docyn £10.00

ISSN 1744-6759

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

www.llgc.org.uk 01970 632 800

Arddangosfeydd

Oriau agor: Dydd Llun i Ddydd Sadwrn
10.00 a.m. - 4.30 p.m.
Mynediad am ddim.

4 Ionawr - 2 Ebrill 2011

Byd Bach – Teithio yng Nghymru a Thu Hwnt
Arddangosfa bwysig yn olrhain hanes teithio yng Nghymru a thu hwnt, drwy gyfrwng casgliadau cyfoethog, amrywiol ac unigryw y Llyfrgell.

4 Ionawr - Mawrth 2012

Cam wrth Gam – Olrhain eich achau yn y Llyfrgell Genedlaethol
Arddangosfa sy'n amlygu'r cyfoeth o adnoddau hanes teulu a geir yn y Llyfrgell.

4 Ionawr - 2 Ebrill 2011

Patricia a Charles Aithie: Yemen
Arddangosfa o ffotograffau trawiadol o wlad Yemen.

4 Ionawr - 26 Tachwedd 2011

Awduron Cymreig: Islwyn Ffowc Elis a Gillian Clarke
Arddangosfa i ddathlu bywyd a gwaith yr awduron Cymreig Islwyn Ffowc Elis a Gillian Clarke.

16 Ebrill - 2 Gorffennaf 2011

Swrrealaeth y Llygad Celtaidd: John Welson a Jean-Claude Charbonel
Arddangosfa o gelf Geltaidd gan ddau o brif artistiaid swrrealaidd Cymru a Llydaw.

Y Llyfrgell Genedlaethol yn ymweld â Wrecsam

Yn ystod tymor yr Hydref, symudodd y Llyfrgell Genedlaethol (neu ran fechan ohoni!) o'i chartref yn Aberystwyth i Wrecsam. Fel rhan o'i chenhadaeth i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn ymwybodol o gasgliadau a gwaith y Llyfrgell, bu staff yn cydweithio gydag unigolion lleol, clybiau a chymdeithasau i baratoi amserlen gyffrous o ddigwyddiadau i'w cynnal ym misoedd Hydref a Thachwedd.

Meddai Andrew Green, Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru: 'Rydym yn falch iawn o fod wedi mynd i Wrecsam eleni – tref sydd ag iddi ran bwysig yn hanes Cymru. Roedd yn ddeufis prysur i bawb ac un o'r uchafbwyntiau heb os oedd agoriad arddangosfa *Hen Luniau o Wrecsam* yn Llyfrgell y dref.'

Penodi Lorna Hughes i Gadair Casgliadau Digidol gyntaf y byd

Penodwyd Lorna Hughes, sydd ar hyn o'r bryd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Canolfan e-Ymchwil yn King's College Llundain, i swydd sy'n torri tir newydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Hi fydd deilydd Cadair academaidd Casgliadau Digidol - y cyntaf o'i fath yn y byd. Ariennir y swydd gan Brifysgol Cymru a dyma'r gadair academaidd gyntaf i'w sefydlu mewn unrhyw lyfrgell genedlaethol yn y byd.

Bydd Lorna yn ymgymryd â gwaith arwain ymchwil academaidd ar yr adnoddau digidol diweddaraf gan wneud defnydd o'r casgliad digidol sylweddol sydd yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae'r gwaith yma'n cwmpasu creu, cyflenwi, ymchwilio, dadansoddi a chadwraeth casgliadau digidol gan gynnwys materion cyfreithiol, rheolaeth data, ffyrdd ymchwilio blaengar a datblygiadau technolegol ym maes mynediad, chwilio a defnydd.

Ar Drywydd y Bodiwr – Pwy oedd Islwyn Roberts?



Daeth y diweddar Islwyn Roberts yn un o sêr mwyaf annisgwyl Cymru yn 2010 wedi i'r Llyfrgell ddefnyddio ffoto a dynnwyd ohono yn 1958 yn bodio wrth ymyl lôn. Defnyddiwyd y llun o'r gŵr o Lanbedr, Merionnydd, i hyrwyddo arddangosfa deithio fawr y Llyfrgell, 'Byd Bach'. Ond beth oedd hanes Islwyn? Gofynnodd y Llyfrgell i'r cyhoedd gysylltu â ni gyda'u hatgofion ac fe ddysgon ni lawer amdano.

- Mae'n debyg fod Islwyn Roberts wedi colli rhan helaeth o'i glyw yn ystod y rhyfel o ganlyniad i ffrwydriad bom
- Pan yn teithio byddai'n cario draig goch gyda'r geiriau "Taffy from Wales" arno
- Bu'n byw, am gyfnod, mewn sied sinc drws nesaf i dy ei frawd yn Llanbedr
- Arferai eistedd ar fainc yn Llanbedr bob dydd a byddai'n adrodd straeon am ei deithiau i bobl yr ardal, ac yn enwedig plant. Erbyn hyn mae plac wedi cael ei osod ger y fainc gyda hoff ymadrodd Islwyn arno – 'Never Cut a Friend'
- Cynhrychwyd cerdyn post gyda llun Islwyn yn eistedd ar y fainc gyda'r plac yn yr 80au/90au
- Honnir bod Islwyn wedi cwrdd â'r Arglwydd Haw Haw. Bu iddynt sgwrsio gyda'i gilydd ar y fainc yn Llanbedr
- Bu Islwyn yn ymweld â De Affrica, Patagonia a Canada
- Bu Islwyn farw ym Mehefin 1993 ac mae erthygl goffa iddo yn rhifyn Gorffennaf 1993 o'r papur bro *Llais Ardudwy*
- Nid oedd yn briod a nid oedd ganddo blant.

Statws UNESCO i Ddau o Drysorau'r Llyfrgell

Dyfarnwyd statws UNESCO i ddwy eitem o gasgliadau'r Llyfrgell yn 2010. Mae'r ddwy – ffilm am David Lloyd George *(The Life Story of David Lloyd George)* a ailddarganfuwyd, a chasgliad Llawysgrifau Peniarth sy'n cynnwys Llyfr Cyfraith enwog Hywel Dda, ymhlith deg eitem a ddewiswyd o'r Deyrnas Unedig. Maent nawr ymysg y rhai cyntaf ar restr treftadaeth UNESCO o ddogfennau eithriadol yn y Deyrnas Unedig.

Mae casgliadau'r Llyfrgell ymysg deg eitem buddugol yn dod o bob cwr o Brydain, ac yn cwmpasu bron i 1000 o flynyddoedd o hanes gan grynhoi cyfnodau ac adegau hanfodol bwysig yn natblygiad y Deyrnas Unedig.

Dewiswyd yr enillwyr gan bwyllgor arbenigol rhaglen Cof y Byd yn y DU yn dilyn proses enwebu ac adolygu a ddechreuodd yn 2009.

'Roeddem yn falch tu hwnt o weld amrywiaeth a chyfoeth yr enwebiadau cyntaf ar gyfer y gofrestr,' meddai David Dawson, Cadeirydd Pwyllgor Cof y Byd yn y DU.

'O ystyried hanes dogfennol cyfoethog y Deyrnas Unedig, rwy'n siŵr nad yw'r enillwyr hyn ond yn crafu'r wyneb. Rydym yn gobeithio y bydd hyn yn annog mwy o bobl i ddod yn rhan o'u harchifdai a'u hamgueddfeydd lleol.'

Ffeithiau Diddorol 2010

Derbyniodd y Llyfrgell bron **8,000** o ymholiadau, **80,000** o ymwelwyr a darllenwyr, **397** ymweliad gan grŵp a dros filiwn o ddefnyddwyr rhwydwaith allanol.

Pen Dinas ar ei newydd wedd

Mae café Pen Dinas ar agor ar ei newydd wedd. Mae bellach yn gwerthu bwyd o safon, fel brechdanau, panini, tatws pob, cawl, a chacennau cartref a llawer o fyrbrydau blasus eraill ynghyd â diodydd o bob math fel te, coffi, siocled poeth, cwrw a suddion.

Yn ogystal â café Pen Dinas mae 'Caffi Bach' ym Mhrif Gyntedd y Llyfrgell, hefyd ar agor. Gallwch brynu yno paneidiau o de neu goffi o safon, diodydd eraill a danteithion. Gall darllenwyr a defnyddwyr hefyd ddod â'u bwyd eu hunain i'w fwyta yn y Caffi Bach gan ymlacio yn awyrgylch hyfryd y bensaernïaeth neo-glasurol.

Sgwrsio gyda Penny Richardson ynglŷn â'i defnydd o gyfrif Flickr Commons y Llyfrgell Genedlaethol

Sut glywaist ti am gasgliad Flickr Commons y Llyfrgell Genedlaethol?

Fe glywais fod y Llyfrgell yn uwchlwytho i Flickr Commons am fy mod wedi bod yn dilyn y prosiect Commons ers y cychwyn! Rwy'n derbyn ffrwd o'r uwchlwythiadau diweddaraf, felly mae gen i grap go dda ar y newyddion. Rwy'n tagio drwy lawer o'r casgliadau difyr, yn enwedig portreadau o ferched, gan fy mod i'n astudio hanes merched (rwy'n ysgolor ymchwil dan adain Canolfan Astudio Merched Prifysgol Califfornia yn Los Angeles).

Pam ddewisaist di'r llun yma?

Fe ddewisais bortread Cranogwen am sawl rheswm. Mae ganddi hanes diddorol iawn – merch o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg â phrofiad o fod yn gapten llong a dysgu pobl i fordwyo, heb sôn am gael ei chanmol am ei barddoniaeth ragorol yn yr Eisteddfod. Mae'r ddelwedd yn wych i'w rhoi ar esgidiau – dim byd rhy gymhleth – ychydig iawn o le sydd ar esgidiau i roi darnau *collage*, felly mae'n rhaid cael delwedd go syml a chlir. Rwy'n hoff o fedru troi delwedd yn llorweddol, fel bod y lluniau fel delweddau mewn drych; mae hynny'n gwneud mwy o synnwyr yn weledol na defnyddio dwy ddelwedd sy'n union yr un fath.

Wyt ti'n bwriadu defnyddio mwy o luniau o'r casgliad?

Rwyf wedi defnyddio lluniau eraill o gasgliad y Llyfrgell. Am tua wyth mis roedd gen i lun ar fy mhwrs o Sarah Edith Wynne, y gantores opera, yn gwisgo gŵn plaen o daffeta. Mae hwnnw hefyd yn fy ffrwd Flickr.

Ges ti lawer o ymateb i'r esgidiau? Oedd dy ffrind yn fodlon â nhw?

Roedd hi wrth ei bodd â nhw! A phan ddarllenodd hi hanes Cranogwen, roedd hi'n dotio mwy fyth arnyn nhw. Ei gwaith ydi dysgu "mordwyo", mewn ystyr mwy haniaethol i'r gair, felly roeddent yn addas iawn. Mae'r paent ar yr esgidiau wedi cracio rhywfaint – mae hynny'n digwydd fel arfer – ond mae'r ddelwedd yn iawn o hyd, ac mae'r esgidiau yn hawdd eu gwisgo

Beth yw dy farn di am sefydliadau yn cynnig eu ffotograffau am ddim ar y we?

At ei gilydd mae'r sefydliadau sy'n rhan o'r prosiect Commons wedi croesawu fy stwnshys yn fawr, ac felly rwy'n credu 'mod i'n taro deuddeg yn amlach na pheidio.

Charles a Patricia Aithie: Yemen 25 Medi 2010-2 April 2011

Mae gwlad Arabaidd Yemen yn y newyddion yn gyson eleni a hynny am resymau trist yn hytrach na hapus. Ond rhydd arddangosfa yn y Llyfrgell gipolwg i ni ar wlad hyfryd iawn.

Tynnwyd y ffotograffau gan Patricia Aithie, brodor o Gaerdydd, a'i gŵr Charles. Mae Pat yn ffotograffydd, awdur a darlithydd sydd â phrofiad o fwy na 25 mlynedd o fyw a theithio yn y dwyrain canol a thu hwnt. Arddangoswyd ei ffotograffau yn rhyngwladol, a bu'n rhoi llawer o ddarlithoedd, gan gynnwys cyrsiau ar Hanes Celf Byd Eang a Diwylliant yn yr Emiraethau Arabaidd Unedig. Mae'n Aelod o Urdd Ysgrifenwyr Teithio Prydain, wedi'i hethol yn Gymrawd o'r Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol, ac wedi derbyn Cymrodoriaeth Winston Churchill.

Mae'r arddangosfa hon yn rhan o gyfres o ffotograffau dogfen a dynnodd Patricia a'i gŵr wrth ymweld ag Arabia gyda chymorth Cymrodoriaeth Winston Churchill a Chyngor Celfyddydau Cymru. Bu i'r prosiect ddwyn ffrwyth yn 2001, pan gyhoeddwyd y gyfrol *Yemen: Jewel of Arabia*, a chyhoeddwyd argraffiad diwygiedig dan glawr meddal yn 2009. Mae'r ffotograffau hynny bellach yn rhan o'r casgliad cenedlaethol a gedwir yma yn y Llyfrgell.

I glywed mwy am y lluniau a'r wlad, dewch i wrando ar sgwrs Oriel i gyd-fynd â'r arddangosfa ar 23 Mawrth 2011.

Cwrdd â'r Staff

Dafydd Tudur

Beth yw teitl eich swydd?

Rheolwr Hawliau a Gwybodaeth.

Beth ydych chi yn ei fwynhau fwyaf am eich swydd?

Gan fod hawliau a gwybodaeth yn faterion sy'n berthnasol i sawl agwedd o waith y Llyfrgell, mae'r swydd yn rhoi cyfle i mi gydweithio â phobl ym mhob rhan o'r adeilad. Mae'n gyfle gwych felly i ddod i adnabod staff eraill y Llyfrgell a dod i ddeall sut maen nhw'n cyfrannu at ei gwaith.

Beth yw eich hoff eitem o gasgliad y Llyfrgell?

Fy hoff eitem o gasgliad y Llyfrgell yw'r dyddiadur a gadwodd Lewis Jones (1836-1904) yn ystod ei ymweliad â De America ym 1862-3.

Fe'i cyhuddwyd gan yr ymfudwyr cyntaf o'u camarwain wrth ddisgrifio'r tir ym Mhatagonia. Ond, yn ogystal â hynny, mae'r dyddiaduron yn cynnwys manylion diddorol tu hwnt ynglŷn â'r daith ac, yn drawiadol iawn, yn dangos Lewis Jones fel gŵr ifanc a oedd wedi'i lethu gan hiraeth am ei wraig a'i blentyn yn ôl yn Lerpwl.

Mae'r eitem hon wedi'i digido ac i'w gweld ar wefan Glaniad.
www.glaniad.com

Dilynwch ni ar
YouTube twitter facebook

Galwch heibio!

Mae'r Llyfrgell Genedlaethol yn estyn croeso i ddarllenwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd.

Galwch heibio. Dewch am baned i Fwyty Pendinas ac i gael cip o gwmpas y siop.

Er mwyn trefnu ymweliad grŵp ffoniwch **01970 632 801** neu e-bostiwch **amj@llgc.org.uk**

Oriau agor

9.30 a.m. – 6.00 p.m.
Dydd Llun i Ddydd Gwener

10.00 a.m. – 5.00 p.m.
Dydd Sadwrn

Teithiau tywys

Mae teithiau tywys am ddim yn cychwyn o siop y Llyfrgell am 11.00 a.m. bob bore Llun a 2.15 p.m. prynhawn Mercher. Ewch i wefan y Llyfrgell **www.llgc.org.uk** am fanylion neu ffoniwch **01970 632 548** i archebu lle ar ein taith y tu ôl i'r llenni.

Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru
The National Screen and Sound Archive of Wales

Ffilmiau'r archif ar y

SGRIN FAWR

Gall siopwyr prysur y brifddinas gael cipolwg ar Gaerdydd y gorffennol wrth i sgrin fawr y BBC y tu allan i Neuadd Dewi Sant ddangos hen ffilmiau o gasgliad Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru sy'n rhan o'r Llyfrgell Genedlaethol.

Dangosir chwe ffilm i gyd, gan gynnwys ffilm o 1968 yn dangos pwll nofio'r Empire, a adeiladwyd ar gyfer Gemau'r Ymerodraeth ym 1958, yn ogystal â ffilmiau o ardal y dociau yn y 1940au. Bydd hefyd yn bosibl gweld ffilm o ganol Caerdydd yn ystod y 1930au, gan gynnwys golygfeydd o siopau Heol y Frenhines, yr Amgueddfa Genedlaethol a'r bysus, y tramiau a'r trenau oedd yn cludo pobl bryd hynny.

Gobeithir datblygu'r bartneriaeth lwyddiannus hon rhwng yr Archif a'r BBC ymhellach trwy ddangos ffilmiau lleol ar y sgrin fawr yn Abertawe yn fuan iawn.

Prosiect Newydd Cyffrous

Enillodd un o brosiectau'r Archif ar y cyd â Choleg Ceredigion Nod Ysbrydoliaeth yr Olympiad Diwylliannol.

Myfyrwyr Coleg Ceredigion, Aberystwyth fu'n cymryd rhan yn y prosiect, 'Bywyd Gwerthfawr', fel rhan o flwyddyn gyntaf eu cwrs BTEC yn y cyfryngau. Buont yn creu ffilmiau byr drwy ddefnyddio deunydd ffilm amatur o gasgliad yr Archif, y cyfan yn seiliedig ar un o bedair thema, sef *Ar y Fferm; Ar Lan y Môr; Carnifal* a *Rasio*.

Dyfarnwyd y Nod Ysbrydoliaeth i'r prosiect am ei fod wedi'i ysbrydoli gan Gemau Olympaidd 2012, ac am ei fod yn ddathliad o ddiwylliant Cymreig a fydd yn ei dro yn ysbrydoli pobl ifainc eraill i feithrin eu doniau creadigol. Cynhelir premiere y ffilmiau a greodd y myfyrwyr mewn dangosiad awr ginio yn y Drwm ar 7 Mawrth 2011.

Gweithdy i Fyfyrwyr

Ar 11 Hydref 2010 bu Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru yn cynnal gweithdai llythrennedd ffilm gyda myfyrwyr yr Uned Cymorth Ychwanegol yng Ngholeg Iâl ger Wrecsam ar y cyd â Reel Education.

Gwelodd y myfyrwyr ffilmiau archif, a rhoddwyd cyfle iddynt eu trafod a gwneud ymarferion ar sail yr hyn a ddangoswyd iddynt. Roedd y prosiect yn rhan o waith Estyn Allan y Llyfrgell yn Wrecsam.

Dywedodd Anwen Pari Jones o'r Archif: 'Roedd yn brofiad gwerth chweil gweithio efo Reel Education fel rhan o'r Rhaglen Estyn Allan yn Wrecsam. Cawsom gyfle i fynd â'r Archif allan i'r gymuned, a'i rhannu â chynulleidfaoedd newydd. Hoffem ddiolch i bobl Wrecsam am roi cymaint o groeso i ni, a hefyd i Asiantaeth Ffilm Cymru am roi arian tuag at y gweithdy.'

Archif Syr Geraint Evans

Yn ystod mis Tachwedd derbyniwyd deunydd gwerthfawr iawn o archif Syr Geraint Evans. Mae'r casgliad yn cynnwys rhaglenni teledu yr ymddangosodd y canwr opera ynddynt yn ystod y 1970au a'r 80au megis opera *The Beach of Falesa*, rhaglen dathlu'r Nadolig gyda Geraint a'i westeion – *Beneath the Christmas Tree* – yn ogystal ag ambell raglen ddogfen megis *Geraint Evans in Covent Garden* lle bu'n ymweld â'r sefydliad lle dechreuodd ei yrfa fel canwr opera.

The Proud Valley yn Wrecsam

Ym mis Hydref dangosodd yr Archif Sgrin a Sain y ffilm glasur *The Proud Valley* yn sinema'r Odeon yn Wrecsam.

Wrth y fynedfa, ochr yn ochr â phosteri ffilmiau fel *Made in Dagenham* a *Wall Street: Money Never Sleeps* gwelwyd ein hen boster yn hysbysebu'r ddrama am lowyr o 1940, gyda Paul Robeson a llu o actorion talentog o Gymru. Roedd y sinema dan ei sang pan ddangoswyd *The Proud Valley* i ddechrau mis o weithgareddau estyn allan y Llyfrgell yn Wrecsam.

Daeth y gynulleidfa allan o'r sinema wedi'u cyffroi a'u llonni o weld ymdrechion arwrol y glowyr: roedd llawer ohonynt yn perthyn i lowyr a fu'n gweithio yn y meysydd glo yng ngogledd-ddwyrain Cymru, a buont yn rhannu eu hanesion teulu gyda ni ar ddiwedd y noson.



Ar agor ar Sadyrnau!

Mae'r Llyfrgell bellach ar agor ar y Sadwrn ond gyda gwasanaeth cyfyngedig.
Rhaid i ddarllenwyr archebu ymlaen llaw.

Arddangosfeydd – Caffi – Siop
www.llgc.org.uk/sadwrn